



Am ryw reswm, ma' galw mawr am chainsaws yn ardal Papur Pawb eleni !

tud 3	tud 4	tud 6	tud 11
Pobl a Phethe	Ysgol Tal-y-bont	Dyddiadur y Lolfa	Carys yn y Wladfa

DIHANGFA WYRTHIOL



wythnosau prysura'r flwyddyn i ni fel gwasg. Diolch byth, o drwch blewyn, llwyddwyd i gael llyfr Dai Jones yn barod ar gyfer y lansiad yn y Marine!"

Yr wythnos ganlynol gwelwyd golygfeydd pryderus yng ngwaelod pentref Tal-y-bont wrth i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ruthro i rwystro dŵr rhag mynd i mewn i ddau dŷ. Roedd draeniau rhwng Bryn Hyfryd a'r Llew Du yn methu ymdopi â llif y dŵr glaw, a chael a chael oedd hi cyn i ddifrod gael ei achosi i gartrefi. Trafodwyd y mater yng nghyfarfod Tachwedd o Gyngor Bro Ceulanamaesmawr.

Gyda misoedd gwaethaf y gaeaf o'n blaenau gobeithio nad yw'r digwyddiadau hyn yn argoel o'r hyn sydd i ddod.

Cafodd un o drigolion Tre Taliesin (sydd am aros yn ddiennw) ddihangfa wyrthiol yn ystod y 'corwynt' bach, dydd Iau, 17 Tachwedd. Roedd hi'n gyrru rhwng Taliesin a Thal-y-bont pan syrthiodd coeden o flaen ei char. Trodd y car gan obeithio y gallai hi yrru i'r cyfeiriad arall pan syrthiodd ail goeden o'i blaen hi! Trwy ryfedd wyrth, dihangodd heb anaf iddi hi nac i'r car. Mae'n debyg iddi gerdded adre a phan glywodd rywun yn torri un o'r coed â llif gadwyn dyma hi'n mynd i roi help llaw er mwyn cael symud ei char i rywle diogel. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddi am ganiatáu i ni gyhoeddi'r llun hwn o'i hantur.

Bydd misoedd o glirio yn wynebu sawl fferm yn y gymdogaeth gyda 25 o goed yn syrthio ar dir Fferm Ynyseidiol yn unig, nifer ohonynt yn disgyn ar gloddiau, ffensys a lliidiardau.

Bu'r Lolfa heb drydan am oriau gan effeithio ar yr argraffdy. Meddai Garmon Gruffudd. "Yn anffodus digwyddodd y toriad yn ystod un o



Dathlodd Sefydliad y Merched Tal-y-bont ben-blwydd y gangen yn 100 oed ym mis Tachwedd gyda chinio yng Ngwesty'r Conrah. Y stori'n llawn ar dudalen 9.



Elin Pugh, enillydd yr hamper Nadolig yn raffl y Neuadd yn derbyn ei gwobr gan Bob Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Dei Nutting, yn y Ffair Nadolig lwyddiannus a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd. Yn y llun hefyd y mae rhieni Elin, cyn-ysgrifenyddion y pwyllgor, Geraint a Siân Pugh

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Sian Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl	(01654) 781260 832028
Eglwysfarch/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais Ceri Morgan	(01654) 781324
Rhwytweithiau cymdeithasol:		
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Is-gadeirydd:	Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont	832697
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgiriadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan, gydag Siôn Pennant yn dylunio. Golygyddion mis Ionawr fydd Mair (mair.n@btinternet.com) a Beryl (ffermglanrafon1@btconnect.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 6 Ionawr 2017, a bydd y papur ar werth ar 13 Ionawr.

Y Cathod

Cafwyd ymateb i'r gerdd am gathod a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf. Diolch i Phil am gyntuno i gynnwys y gerdd hon gan y 'bardd' diennw.

Cyngor i Phil Davies

Mae darn o g...a pwsî fach,
Os credwch yr hen goel,
Yn siwr o 'sgogi tyfiant ffres
Os taenir ar ben moel.

Anthro-pws

Gyrfa Chwist

Dofednod

Gyda Raffi Fawr a gwobrau amrywiol

Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fercher 14 Rhagfyr
Am 8.00 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

Mae Eleri a Gwilym,
Meisgyn, yn dymuno
Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i'w holl
ffrindiau yn ardal Papur
Pawb. Pob dymuniad da!



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i fy ffrindiau a
holl ddarllenwyr Papur Pawb
oddi wrth Kathleen Richards,
Bryn, Tal-y-bont. Nid wyf yn
medru danfon cardiau eleni,
ond byddaf yn rhoi cyfraniad
tuag at elusen.



PLYGAIN MORLAN

7.30, nos Fercher, 21 Rhagfyr
Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein
Plygain draddodiadol. Croeso
cynnes i bawb.

NOSON GWIS MORLAN

7.30, nos Fercher, 11 Ionawr 2017
Cwis blynyddol ble mae timau o
gapeli ac eglwysi lleol yn cystadlu
am Darian Her Morlan. Beth am
ffurfio tîm? Ac os nad ydych chi
mewn tîm, dewch draw i gefnogi!

Manylion llawn ar wefan Morlan:

www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970 61 7996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Dyddiadur

RHAGFYR

- 10 Siop Cynfelyn Tre'r-ddôl
3.30-5.30 'Twts Taliesin yn
Teyrnasu' (Ffilm 'Frozen')
- 11 Bethel 10 Gweinidog
(Cymunedb) Derbyn
aelodau newydd;
Ysgol Sul 11.15-12.15
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth 6 Gwasanaeth
Nadolig Cymunedol
Merched y Wawr
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun
Bendigaid
- 12 Cyngerdd Nadolig Cylch
Meithrin Tal-y-bont
- 13 Cymdeithas y Chworiydd
Rehoboth 'Cardi ar y Paith'
(John Gwyn Jones)
- 13 Pwyllgor Rheoli Neuadd
Goffa Tal-y-bont 8.00
- 14 Gyrfa Chwist Dofednod, 8
Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 15 Sefydliad y Merched Tal-y-
bont Parti Nadolig
- 18 Bethel 10 Lleol; Ysgol Sul
11.15-12.15
Rehoboth 10 Ifan Mason
Davies
Eglwys Dewi Sant 5
Carolau i bob oedran yng
ngolau kannwyll
Siop Cynfelyn 2-4 Cegin
Mrs Corn 'Pobi bisgedi
gwydr lliw'
- 21 Siop Cynfelyn 2-4 Canu
Carolau o gwmpas Tre'r-
ddôl
- 24 Siop Cynfelyn 11-2
Ymweliad gan Siôn Corn
Bethel 5.30 Gwasanaeth
Nadolig yr Ysgol Sul
- 25 Bethel 10 Oedfa Bore'r
Nadolig. Gweinidog
Nasareth Oedfa'r Nadolig
Rehoboth Oedfa'r Nadolig
Eglwys Dewi Sant 10
Gwasanaeth Undebol yn
Eglwys Sant Mihangel,
Llandre
Eglwys Sant Pedr, Elerch 8
a.m. Cymun Bendigaid

IONAWR

- 1 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth Uno yn Bethel
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30 Cymun Bendigaid
- 3 Sefydliad y Merched
Taliesin Noson i'r aelodau a
Phenderfyniadau
- 5 Wildfowler Tre'r-ddôl Bingo
- 8 Bethel 2 Gweinidog
- 10 Cymdeithas y Chworiydd
Rehoboth 'Hwn a'r Llall'
(Phil Davies)

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- a rhagor

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.cymru

Genedigaeth

Croeso cynnes i aelod newydd o deulu Phil a Ffion Hatfield, Sŵn-y-gwynt, Bont-goch. Ganed Sara Lois ar 8 Tachwedd, yn chwaer fach i Osian. Bu'n gyfnod pryderus i'r teulu gan i Sara Lois dreulio 18 niwrnod mewn ysbytai yn Aberystwyth, Abertawe a Chaerlŷr, yn derbyn gofal arbennig. Mae'r teulu yn ddiolchgar iawn i'r meddygon a'r nyrsus oll a fu'n gofalu mor ofalus amdani, ac i bawb am eu dymuniadau gorau.

Y Fuches Orau

Llongyfarchiadau i Trefor Jones Cwmcae am fod yn llwyddiannus mewn Cystadleuaeth gyda Chlwb Gwartheg Duon Cymreig, De Cymru. Cafodd y wobwr gyntaf am y fuches orau dan 10 buwch, y cyntaf am y fuchw a llo orau a'r ail am y tarw stoc gorau. Hefyd, enillodd y wobwr Pencampwr y Pencampwyr am y fuches orau yn Ne Cymru.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Eleri Huws, Meisgyn ar gyrraedd oed yr addewid a chyfarfod cynnes oddi wrth holl ddarlennwyr Papur Pawb.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i'r teulu ar enedigaeth Edwin Morgan Williams, mab Dafydd a Vivianne Williams, Penywern ac wŷr newydd i Bob Williams.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Richard Huws, Bontgoch ar ennill cystadleuaeth Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth Ceredigion / Cymdeithas Enwau Lleoedd am gofnodi enwau tai diflanedig Elerch, a £100 o wobwr. Yn ail oedd Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Tal-y-bont am gofnodi tai diflanedig Ceulanamaesmawr.

Gwellhad buan

Dymunwn adferiad buan i Geraint Lewis, York House, Tre'r Ddôl, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Pobl a Phethe



Y FFERMWYR IFANC YN CEFNOGI CRONFA SEREN

Seren Hughes, Fferm Tynohir yn derbyn sic o £505, sef hanner yr elw a wnaethpwyd yng Nghymanfa Ganu'r Rali, tuag at apel Seren. O'r chwith i'r dde: Seren Hughes, Beca a Cadi Williams a Gronw Downes

Cydymdeimlo

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Eiry Jones, Dolau Gwyn, Dole. Bu Eiry yn gweithio fel golygydd yn Y Lolfa am gyfnod. Cydymdeimlwn â'i gŵr Iwan, a'u bechgyn Garmon a Deiniol.

Yn Gwella

Braf gweld Karen, 10 Maes y Deri o gwmpas y pentref unwaith eto wedi iddi fod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Llai o ruthro o gwmpas Karen a mwy o orffwys! Nid yw tad Karen, sef Gwyndaf, 94 Maes y Deri, wedi bod yn dda ei iechyd ers amser bellach. Pob dymuniad da i chi Gwyndaf ac i Jano sydd yn fawr ei gofal ohonoch.

Merched y Wawr

Roedd ein cyfarfod ym mis Tachwedd yng ngofal Diana Jones ac Eryl Evans. Oherwydd anffawd methodd y siaradwr

ddod a bu'n rhaid inni newid ein trefniadau. Daeth Huw Ceiriog i'r adwy i lenwi bwlch. Cawsom noson ddifur yn ei gwmni wrth iddo drafod argraffu, sef un o'i ddiddordebau. Mae'n berchen ar hen beiriant argraffu cant oed. Eglurodd sut mae mynd ati i argraffu ac roedd ganddo enghreifftiau o bamffledi a chardiau Nadolig y mae wedi'u cynhyrchu dros y blynyddoedd. Diddorol sut mae rhai idiomaau Saesneg wedi codi o'r byd argraffu. Cafwyd cyfle ar y diwedd i'w holi ac i edrych ar ei waith. Cydymdeimlwyd â Mai Leeding yn ei phrofedigaeth a braf oedd ei gweld wedi dod atom.

Cymdeithas y

Chwirydd, Rehoboth

Ar brynghawn Mawrth, 8 Tachwedd, croesawyd Emyr Jones o Lanrhytud atom i ddangos rhai o'r ffilmiau mae ef wedi eu cymryd o adloniant

lleol. Yn eu plith cawsom weld ffilm o Gymanfa Ganu y Ffermwyr Ifanc gydag ambell i wyneb cyfarwydd neu berthynas yn dod i'r amlwg; unigolion a deuawdau yn canu mewn cyngherddau lleol, y cyfan o ddiddordeb mawr ac yn fwynhad pur. Hyfryd o beth yw fod Emyr yn barod i gofnodi ar ffilm rai o gyngherddau ac adloniant cefn gwlad, a hyn yn wirfoddol. Diolchwyd iddo am brynghawn hyfryd ac i Non, Eirlys ac Ann am baratoi y te.

Gwasanaeth Sul y Cofio

Cynhaliwyd gwasanaeth coffa a diolchgarwch ar ddydd Sul, 13 Tachwedd 2016 yn y Neuadd Goffa. Roedd y gwasanaeth yn cofio'n arbennig y rhai hynny o Dal-y-bont a roddodd eu bywydau yn ystod y ddau Ryfel Byd.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch Peter Jones, ac fe gychwynnodd am 10:45yb gyda'r emyn agoriadol yn cael ei chwarae ar y piano gan Mrs Susan Jenkins.

Darllenwyd efengyl Sant Mathew o'r Beibl yn y Gymraeg gan y Cyng Nest Jenkins, a dilynwyd hyn gydag emyn yn y Gymraeg a'r Weithred o Goffau.

Darllenodd Mr Ieuan Morgan y Rhestr er Anrhydedd ac i ddilyn cafwyd cân ar y trwmpeid. Aeth Mr Morgan ymlaen gyda'r Anogaeth ac fe nodwyd y ddau funud o dawelwch am 11:00yb. Dilynwyd hyn gan y Beddargraff Kohima ac yna chwaraewyd y Reveille.

Gosodwyd y ddwy dorch, a ddarparwyd gan y Cyngor Cymuned, gan Mr Bob Southgate a Mr John Morgan.

Yna, fe arweiniodd y Parch Peter Jones y Weithred Ymrwymo a dilynwyd hyn gyda darlleniad o'r Beibl yn y Saesneg gan Janet Morgan. Myfyriwyd gan y Parch Peter Jones a dilynwyd hyn gan weddïau a'r fendith derfynol.

Yn ystod yr emyn olaf, cynhaliwyd y casgliad ac fe godwyd £128.73 tuag at Apêl Pabi'r Llang Brydeinig Frenhinol. Diolch i chi am y cyfraniad hael tuag at yr achos teilwng hwn.

YSGOL TAL-Y-BONT

Plant Mewn Angen

Mae Tachwedd wastad yn fis cyffrous oherwydd y digwyddiadau sy'n cael eu trefnu i gyd-fynd gyda Diwrnod Plant Mewn Angen. A rhag ofn i chi feddwl fod y plant wedi codi'n hwyr eleni, dymuniad y Cyngor Ysgol oedd i bawb wisgo eu pyjamas i'r ysgol! Ond roedd cyffro ychwanegol y tro yma gan ein bod wedi croesawu Aled Hughes, cyflwynydd Radio Cymru atom i'r ysgol. Roedd Aled wedi penderfynu teithio o Abertawe i Fangor ar ei feic yn ystod yr wythnos, er mwyn codi arian i'r elusen ac fe gafodd croeso swmlyd iawn gan blant Ysgol Tal-y-bont wrth iddo basio heibio. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni, codwyd £95 ac mae Aled wedi codi £17,500 erbyn hyn. Roedd hi'n braf iawn cael croesawu Aled yn ôl i'r ysgol wrth iddo daro mewn ar ei ffordd adre o'r Ffair Aef a sgwrsio gyda rhai o'r disgyblion am y Nadolig. Cofiwch wrando'n astud ar ei raglen ar Radio Cymru er mwyn cael clywed lleisiau bach Ysgol Tal-y-bont.



Ysgol Eco / Ysgol Iach

Yn ystod y mis roedd hi'n braf cael y cyfle i groesawu Sioned Lewis, Swyddog Ysgolion Sustrans Cymru i'r ysgol i ddechrau ar ein prosiect teithiau iach. Dros y misoedd nesaf bydd Sustrans Cymru cydweithio gyda'r ysgol i hybu'r plant, (a'r rhieni) i gerdded a beicio mwy. Roedd creu siacedi llachar i gyd-fynd gyda'r gwaith yn llawer iawn o hwyl!

Gala Nofio'r Urdd

Llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth gystadlu yn y gala nofio flynyddol yng Nghanolfan Hamdden Plasrugg. Fel arfer, roedd y safon yn arbennig o uchel ac roedd yn gyfle da i blant yr ysgol gystadlu yn erbyn plant eraill o Geredigion. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r profiad.



Hoci

Mae'r tymor hoci'n parhau gyda'r tîm ifanc yn cystadlu'n frwd yn y gynghrair ar nos Wener. Diolch i Mrs Hughes, Miss Williams a Mr Bernard Morris am fod yng ngofal y tîm eleni.

Yr Ysgol yn y Gymuned: Goleuo'r Goeden Nadolig

Mae'n hen draddodiad bellach i blant yr ysgol berfformio eitemau yn seremoni goleuo coeden Nadolig y pentref. Diolch yn fawr am y gwahoddiad i fod yn rhan o'r achlysur unwaith eto, i'r staff am baratoi'r eitemau ac i Mrs Jenkins am bob cymorth ar y noson. Diolch yn fawr iawn hefyd am y danteithion melys. Thérèse a Chloe, Llysgenhadon yr ysgol gafodd y fraint o gynnal y golau eleni.

Clwb yr Urdd


Dechreuodd Clwb yr Urdd ar ôl y gwyliau hanner tymor ac mae'r gweithgareddau amrywiol wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda llawer iawn o blant yn mynychu.

Gweithgareddau Trydanol

Yn ystod y mis cafodd plant Blwyddyn 1 a 2 lawer o hwyl yn arbrofi gyda gwifrau a bylbiau a batris er mwyn creu cylchedau trydan. Yn ôl y llun cafodd y gwyddonwyr bach cryn lwyddiant ar y gwaith. Da iawn chi blant.

Addysg Heddwch

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae wedi bod yn bleser i groesawu criw 'Addysg Heddwch' yn ôl i'r ysgol i gynnal gweithgareddau diddorol a difyr am bwysigrwydd byw'n heddychlon gyda'n gilydd yn y byd. Diolch yn fawr iawn i Mrs James, Mrs Powell, Mrs Dafis a Mrs Huws am rhoi o'i hamser i gynnal y sesiynau gwerthfawr yma.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Tachwedd.

1. Materion Cynnal a Chadw Amrywiol

Trafodwyd nifer o faterion sydd eisoes wedi cael eu hadrodd i bennaeth adran Gwasanaethau Technegol Cyngor Sir Ceredigion. Adroddwyd fod y Cyngor Sir wedi bod gyda 'jetter' i drio clirio'r rhwystr yn y draen sydd yn achosi dŵr i godi trwy'r gratin ger Gwynfa/Brynhyfryd. Nododd y Cyngorwyr fod y broblem yn waeth fyth, er gwaetha'r gwaith yma. Adroddwyd fod dŵr hefyd yn llifo i lawr y ffordd i mewn i garej perchennog tŷ cyfagos, a thbyir fod y broblem yma yn tarddu o'r broblem draenio yma. Cytunwyd i ail-godi'r mater unwaith eto gyda'r pennaeth adran gan fod perygl mawr yno, yn enwedig pan fydd rhew ar y ffordd.

2. Archwiliad Meinciau

Nodwyd fod John Evans wedi cwblhau archwiliad o feinciau concrit a phren Tal-y-bont, ac wedi trwsio 5 o'r seddi yma ar ran y Cyngor. Estynnwyd diolch iddo am y gwaith yma.

3. Ymgynghoriad: Blwch Ffôn BT

Derbyniwyd hysbysiad oddi wrth BT ei bod am waredu nifer o flychau ffôn dros y sir. Yn Nhal-y-bont, bwriedir gwaredu'r blwch ffôn wrth ymyl y Neuadd Goffa. Nododd BT nad oedd yr un alwad wedi cael ei gwneud o'r blwch yn y 12 mis diwethaf. Ar ôl trafod y mater, gan ystyried cyflwr y blwch a'i ddefnydd, cytunwyd i beidio gwrthwynebu.

4. Gohebiaeth – Comisiynydd Pobl Hŷn: Holiadur "Pa Mor Hawdd yw Cerdded yn eich Cymdogaeth"

Derbyniwyd gwahoddiad i lenwi holiadur ynglŷn â pha mor hawdd ydyw i gerdded o amgylch eich cymdogaeth. Diben yr holiadur yw sicrhau bod pobl hŷn ac anabl yn medru cyrraedd gwasanaethau lleol. At hyn, maent am annog y rheini dros 50 i gerdded er mwyn cadw'n egniol a heini. Gellir lawr lwytho copi o'r holiadur trwy fynd i'r wefan, neu trwy e-bostio neu ffonio Heneiddio'n Dda yng Nghymru: <http://www.ageingwellinwales.com/wl/age-friendly-streets> | 02920 445 030 | heneiddiondda@olderpeoplewales.com

5. Gohebiaeth - Cyngor Sir Ceredigion: Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Ceredigion 2017

Derbyniwyd gwahoddiad i lenwi holiadur sy'n gofyn am farn ynglŷn â materion trosedd ac anhrefn yng Ngheredigion. Diben yr asesiad yw darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o broblemau diogelwch cymunedol. Gellir llenwi'r holiadur ar lein, neu ffonio'r adran Diogelwch Cymunedol i ofyn am gopi papur: www.ceredigion.gov.uk/arolwgtroseddacanhrefn | 01545 572432

6. Gohebiaeth – Tesco: "Bags of Help", Cymorthdaliadau Prosiectau Cymunedol

Derbyniwyd hysbysiad ynglŷn â chymorthdaliadau sydd ar gael i brosiectau cymunedol gan Tesco. Er mwyn bod yn gymwys am gymhorthdal (hyd at £5,000, dim llai na £2,000), rhaid i'r prosiect annog y defnydd o ardaloedd awyr agored, neu wella ardal awyr agored o fewn y gymuned leol. Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais dylid ffonio neu fynd at wefan Tesco: 01212 375780 www.tesco.com/bagsofhelp

Sefydliad y Merched Taliesin - Llwyddiant yn y Rali Aeaf

Cynhaliwyd y Rali ddydd Sadwrn 14 Tachwedd yn Felin-fach a bu Taliesin yn dathlu Llwyddiant ysgubol ym mhob adran. Dyma'r canlyniadau:

Coginio

Cacennau bach wedi eu haddurno: 1af Liz Roberts 2il Val Walsh
Ffrwythau marsipân: 2il Val Walsh 3ydd Liz Roberts
Jam Nadolig: 1af Val Walsh
Terrine: 3ydd Beti Wyn
Tarian Abermeurig am y nifer fwyaf o farciau yn yr adran Coginio: Val Walsh

Crefftau

Pengwin: 1af Beti Wyn
Torch o ffrwythau sych: 1af. Beti Wyn

Blodau

Gwyliau Gaeaf: 1af Beti Wyn, 3ydd Chris Gilbert
Arddangosfa o flodau Petite yn cynnwys darn Haearn: 1af Beti Wyn, 3ydd Chris Gilbert
Minature: 3ydd Beti Wyn
Torch Nadolig: 1af Chis Gilbert, 2il Beti Wyn
Y nifer uchaf o bwyntiau a'r Eitem Orau yn yr Adran Flodau a Crefftau: Beti Wyn Davies
Darn cydweithredol ar y thema Gwyliau Nadolig: 2il Taliesin
Enillodd Taliesin y marciau uchaf yn y Rali a Chwpan Arian y 'Countess of Lisburne'. Aeth gwaith Beti Wyn (y Pengwin o waith ffeltio nodwydd a'r gosodiad blodau, Gwyliau Gaeaf), ymlaen i'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd

Y Ffair Aeaf Llanelwedd

Unwaith eto, daeth Llwyddiant i Beti Wyn Davies a Chris Gilbert yn y Sioe Aeaf yn Llanelwedd. Mae'r ddwy yn aelodau o Glwb Blodau Aberystwyth ac yn aelodau gweithgar o Sefydliad y Merched Taliesin. Mae gan y ddwy ddiddordeb mewn gwaith celf a gosod blodau. Dyma'r canlyniadau:

Torch o flodau ar y thema Gwehyddu mewn Twid: 3ydd. Chris Gilbert

Cafodd Beti Wyn wobwr cyntaf am osodiad blodau ar y thema Aur Cymru a gwobr cyntaf yn yr Adran Grefftau am lun yn defnyddio botymau ynghyd â nifer o wobrau eraill yn yr adran flodau a crefftau.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)


Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Dyddiaduron Robat

Roedd tipyn o her yn wynebu Robat Gruffudd, Y Lolfa pan benderfynodd droi'r nodiadau dyddiadur y bu'n eu cadw ers y 1960au yn llyfr. Fel awdur a chyhoeddwr yr oedd yn ymwybodol o'r peryglon sy'n wynebu dyddiadurwr wrth geisio llunio testun sy'n berthnasol ac yn afaelgar i ddarllenwyr cyfoes. Y dasg yw dethol yn ofalus, a phenderfynu faint o ailysgrifennu ac esbonio sydd ei angen. Llwyddodd Robat i wneud hynny gan greu darn o lenyddiaeth yn y fargen.

Y dechneg a ddefnyddiodd oedd paratoi hyd at hanner dwsin o gofnodion y flwyddyn yn nodi uchafbwyntiau neu ddigwyddiadau arwyddocaol yn ei ddatblygiad fel person, ymgyrchydd a dyn busnes. Mae pob bachyn yn caniatáu iddo naill ai ddehongli ac esbonio arwyddocâd rhyw achlysur neu i athronyddu mewn ffordd dreiddgar am bynciau oesol. Yn llinyn trwy'r cyfan y mae sylweddoliad Robat bod ffawdd wedi gwenu arno a'i genhedlaeth a bod ganddo le i ddiolch.



Seimon Brooks yn holi Robat yn ystod y lansiad

Cewch ddarllen, felly, am gyffro'r 60au pan daniwyd brwydr yr iaith, am ddigwyddiadau o bwys yn hanes Y Lolfa, am brofiadau teuluol yma ac yn yr Almaen ac am gymeriadau y deuai Robat ar eu traws led-led Cymru a thu hwnt. Nid yw'n hawdd agor eich pac, ac yn wir eich calon, a'u cyflwyno i lygaid beirniadol y byd, ond gallwn fod yn ddiolchgar i Robat am fentro gwneud er mwyn rhoi i ni ddarlun mor graff o gyfnod arbennig, a'r dylanwadau sydd wedi helpu i greu ei gymeriad.

Bydd y gyfrol o ddiddordeb arbennig wrth gwrs i drigolion Tal-y-bont, gyda chymaint o gyfeiriadau at ddigwyddiadau a chymeriadau lleol. Bydd yn agoriad llygaid i'r genhedlaeth iau sydd am gael cipolwg ar frwydrau'r gorffennol, nifer ohonynt yn frwydrau y bydd

rhaidd i ni ymladd dro ar ôl tro os am oroesi fel pobl, fel y mae'r gyfrol yn ein hatgoffa.



Tecwyn Ifan yn diddanu'r dorf yn ystod lansiad Lolian

Mae'r cyfeiriadau teimladwy at golledion teuluol yn cyfoethogi'r llyfr ac yn rhoi cyfle i Robat fyfyrir am ystyr bywyd. Cewch ddigon o gyfle i chwerthin, fodd bynnag, wrth ddarllen sylwadau pryfoclyd Robat a'i ddisgrifiadau o sefyllfaoedd swreal yn enwedig wrth grwydro clybiau jazz Ewrop. Doniol oedd darllen bod ffrind coleg yn ei alw'n 'unben' mor bell yn ôl â 1964!

Dichon y bydd ambell i hanesydd yn crychu ei drwynt wrth ddod ar draws rhai pytiâu sy'n ymddangos fel ffrwyth y cof yn hytrach na chofnod o ddyddiadur. Nid oedd hynny'n amharu'n ormodol ar fy mwynhad i o'r gyfrol ond efallai y dylid gochel rhag dyfynnu o'r gyfrol i brofi ffeithiau hanesyddol heb wirio ffynonellau eraill.

I gloi, mae'n hyfryd darllen y cyflwyniad ar ddechrau'r llyfr 'I Enid a wnaeth bopeth yn bosibl', a'i ddisgrifiad ohoni yn Awst 1965: 'Mae hi'n normal, a hyfryd, a gwalltgoch a Chymreig, yr holl bethau dydw i ddim'. Gall ardal Tal-y-bont a Chymru gyfan ddiolch nad yw Robat yn 'normal' a'i fod wedi defnyddio ei ddoniau creadigol a'i angerdd i arloesi a'n herio ar hyd y blynyddoedd.

Phil Davies

Lolian – Dyddiadur Hanner Canrif
Robat Gruffudd
Y Lolfa £ 9.99

Bistro Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doli, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS
www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDDODDWR
IN PEOPLE | MERN POBL


Ffotograffydd Lleol Arloesol

Rhai blynnyddoedd yn ôl cyhoeddodd Cymdeithas Papur Pawb gyfrol ddeniadol ar y ffotograffydd lleol, E O Jones (1873-1915), gan Hefin Llwyd. Teitl y gyfrol, sy'n llawn ffotograffau diddorol o'r ardal ganrif a mwy yn ôl, oedd Un Ennyd Fer. Yn ddiweddar penderfynodd y Gymdeithas i roi ail gynnig ar werthu'r gyfrol werthfawr hon i drigolion yr ardal ac, o ran hynny, i gylch ehangach.

Daeth yn amlwg fod galw am y gyfrol gan y sawl sydd wedi symud i'r ardal yn ystod y blynnyddoedd diwethaf ac sydd erioed wedi ei gweld. Yn ogystal, bydd eraill wedi colli'u copïau dros dreigl y blynnyddoedd a phan ddechreuwyd ei gwerthu yn Ffair Neuadd Goffa Tal-y-bont, prynwyd copi gan un a gollodd ei chopi hi yn ystod llyfogydd 2012.

Yn y broliant i'r gyfrol, disgrifir E O Jones fel hyn:

"Mae E O Jones yn un o ffotograffwyr amatur



Clawr y llyfr yn dangos E O Jones gyda'i gamera



Cinio'r mwynwyr, y Llew Du, 1899

cynharaf Cymru ond hefyd yn un anarferol o grefftus a chreadigol. Bu mewn cysylltiad â'r enwog John Thomas, Lerpwl, ac aeth ati i gofnodi bywyd ei ardal â brwdfrydedd anghyffredin gan greu portread unigryw o Gymru ar droad y ganrif hon".

Bellach mae'r "ganrif hon" wedi troi'n "ganrif ddiwethaf" ond mae'r lluniau yn y llyfr yn parhau'n hynod o drawiadol a thestun

Hefin yn ddadlennol a difyr.

Dyma anrheg Nadolig deniadol i'r sawl sydd â diddordeb yn hanes yr ardal ac mewn ffotograffiaeth gynnar. Gellir prynu'r llyfr yn siop Y Lolfa neu yn Siop Cynfelyn. Ei bris yw £5. Bydd yr elw o'r gwerthiant yn mynd at achosion da lleol.



Dwy o aelodau hyn Capel Soar, Tre'r ddôl, c. 1898

CFfI Tal-y-bont a'r Cylch

Mis o ddathlu llwyddiant fu mis Tachwedd i'r Clwb gan ddechrau ar benwythnos cynta'r mis pan oedd cyfweiliadau y teithiau tramor gyda CFfI Cymru. Llwyddodd Steffan Rhys Nutting i gael ei ddewis i fod yn Arweinydd ar dîm Cymru a fydd yn teithio i Latfia ar gyfer Rali Ewropeaidd 'Rural Youth Europe'.

Mae'n siŵr eich bod wedi darllen yn rhifyn y mis diwethaf am fwynhad yr aelodau yn yr Eisteddfod ac roedd yr aelodau'n falch iawn i weld y Neuadd Goffa yn llawn yn y noson o adloniant 'Pigion o'r Eisteddfod'. Cafwyd gwledd o adloniant a braf iawn oedd cael croesawu'r teulu Hughes, Fferm Tynohir i dderbyn sic o £505, sef hanner yr elw a wnaethpwyd yng Nghymanfa Ganu'r Rali, tuag at apêl Seren.

Bu Beca Williams yn cystadlu mewn tair cystadleuaeth yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe - Unawd o dan 16, Unawd Alaw Werin o dan 26, a gyda'i chwaer Cadi a Cari Davies yn yr Ensemble lleisiol. Fe gafodd yr Ensemble lleisiol yr ail wobwr ar lwyfan Cymru, camp anhygoel i'r merched ifanc ar eu cynnig cyntaf ar lwyfan y CFfI ac mae ein diolch yn fawr i Helen Medi am eu hyfforddi. Gallwch weld eu perfformiad ar YouTube trwy sganio'r cod QR ar y dde. Mi gewch wefr rwy'n siwr.



Ar ôl llwyddiant y Diwrnod Maes, cafodd Bedwyr Siencyn, Tanrallt ei ddewis i gynrychioli'r Sir yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd fel rhan o'r tîm barnu ŵyn tew. Roedd yn cystadlu o dan 16 a llwyddodd y tîm o Geredigion gipio'r drydedd wobwr a

Bedwyr yn ennill tlws am yr un gorau o dan 16 oed am roi ei resymau trwy gyfrwng y Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr i ti Bedwyr.

Hoffai'r clwb longyfarch aelod sydd wedi llwyddo tu allan i lwyfan y CFfI sef Dewi Jenkins, Tyngraig, sydd wedi cael ei ddewis i fod yn gapten ar dîm Treialon Cŵn Defaid Meithrin Ceredigion, ac yn rhan o dîm De Cymru a fydd yn mynd benben gyda thîm Gogledd Cymru, Ddydd Sadwrn 10fed o Ragfyr ar Fferm Blaenglown Fawr, Talgarreg. Pob lwc i chi!

Bydd y clwb yn mynd yn syth i mewn i ddathliadau'r Nadolig felly gwnewch yn siŵr eich bod adref y nosweithiau Mawrth nesaf gan y byddwn yn dod o amgylch i ganu carolau i godi arian tuag at elusennau.

Steffan Nutting

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760


Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Tori Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

The Manchester United Welsh



Mae'n rhaid dweud mod i, fel un o'r 659 miliwn ar draws y byd sy'n cefnogi'r clwb pêl droed Manchester United, wedi edrych ymlaen yn fawr at ddarllen y gyfrol hon gan Gwyn Jenkins a Ioan Gwyn. Mae tîm talentog y tad a'r mab wedi creu llyfr diddorol tu hwnt am ddylanwad y Cymry ar un o glybiau pêl droed mwyaf y byd ac mae'n darllen yn rhwydd iawn. Does dim byd yn well na 'chydig o nostalgia i danio'r galon wrth gwrs ac mae'r ddau â dawn i adrodd stori yn gryno ac yn afaelgar.

Mae'n nghanedlaeth i wrth gwrs yn gyfarwydd iawn â chyfraniad arwyr fel Mark Hughes yn ystod yr wythdegau a dechrau'r nawdegau, ac yn fwy na neb arall, cyfraniad anferthol Ryan Giggs yn ystod oes aur arobryn Syr Alex Ferguson. Roedd rhywun hefyd yn ymwybodol o gampau'r asgellwr Billy Meredith ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac wedi darllen tipyn am lwyddiannau Jimmy Murphy wrth ymyl Matt Busby gyda chriw talentog y 'Busby Babes'.

Mae rhywun yn meddwl mewn termau byd eang wrth drafod clybiau a chwaraewyr pêl droed yr unfed ganrif ar hugain, a beth sy'n synnu dyn yn y gyfrol hon ydy'r lleng ehangach o Gymry sydd wedi cyfrannu'n hael ar hyd y blynyddoedd at hanes a datblygiad Manchester United. Yn wir mae'r cysylltiadau cryf hynny rhwng y clwb â Chymru yn mynd yn ôl i'r dechrau'n ddeg, trwy ddylanwad bobl fel Jack Powell yn nyddiau Newton Heath.

Dyma'r anrheg delfrydol y 'Dolig hwn i'r ffan pêl droed yn eich bywyd a pheidiwch â phoeni os nad ydyn nhw o reidrwydd fel fi yn caru Manchester United ac yn addoli arwyr presennol tîm Cymru. Fe gaiff pawb flas ar ddarllen am hanes datblygiad cyffredinol pêl droed yn yr ugeinfed ganrif yn y gyfrol, ac fel y mae'r ddau yn ein hatgoffa wrth gloi, gêm y bobl ydy pêl droed o hyd, hyd yn oed yn nyddiau'r arian mawr.

RhE

Sesiwn Nos Wener



Gwilym Bowen Rhys a'i gyfeillion oedd yn serennu yn Sesiwn Nos Wener a gynhaliwyd yn y Llew Gwyn fis Tachwedd

Proff yn y Pyb



Yr Athro John Farrar o Brifysgol Bangor oedd y Proff yn y Pyb, yn y Llew Gwyn ym mis Tachwedd. Bu'n trafod '1754-2054, 300 Mlynedd o Newid Hinsawdd', diwrnod cyn i'r storm fawr daro'r ardal! Dyma'r ddiweddaraf mewn cyfres o sgrysiâu ar y thema sy'n cael eu trefnu gan Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont. Cyflwynwyd John gan ei ferch Dr Kerrie Farrar, Llys Etna, sy'n gweithio yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Nadolig Llawn
a
Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr Papur Pawb!**

**Gwasanaeth Scania
ARTHUR MORGAN**



Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard



10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS  M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	TEIARS HUW LEWIS  TYRES
Glanyrafon Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Arwyddion yr Amserau



Un peth sy'n taro'r sawl sy'n teithio ar hyd priffordd yr A487 drwy bentref Tal-y-bont yw'r nifer o dai sydd ar werth ar hyn o bryd. Cyfrifwyd bod o leiaf 19 o dai ac arwynt arwydd 'Ar Werth' yn y penterf hwn yn unig, ac mae rhai ohonynt wedi bod ar y farchnad ers dros ddwy flynedd. Os teithiwch drwy bentrefi Bow Street, Llandre, Taliesin, Ffwrnac ac Eglwys-fach yr un yw'r stori – mae'n anodd osgoi sylwi ar yr arwyddion 'Ar Werth'. Mae'n amlwg nad yw tai yn symud yng ngogledd Ceredigion ar hyn o bryd.

Mor wahanol yw pethau yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr, lle cyhoeddwyd yn ddiweddar fod y farchnad dai wedi bywiogi eto ar ôl canlyniad y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod prisiau tai ym Mhrydain wedi cynyddu 8.4% yn ystod mis Awst eleni. Yn Llundain yn unig gwelwyd cynnydd o 12.1%, lle mae pris tŷ ar gyfartaledd mewn rhai rhannau o'r ddinas bellach ymhell dros filiwn o bunnoedd. Datgelodd y Swyddfa Ystadegau hefyd fod y bwlch rhwng y gwahanol rannau o Brydain yn ymledu. Yr ardal lle ceir y tai rhataf oll yw Blaenau Gwent, lle mae'r pris ar gyfartaledd yn £77,000. Yma yng Ngheredigion, yn ôl ffigurau diweddaraf y Swyddfa Gofrestru Tir, pris tŷ ar gyfartaledd yw £169,970, sydd 1% yn llai beth oedd flwyddyn yn ôl.

Arwydd o gyflwr yr economi yma yng ngogledd Ceredigion yw'r tai sydd ar werth. Gwelsom fod rhai o gyflogwyr mawr yr ardal, y Cyngor Sir, y Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol i gyd wedi gorfod gwneud arbediadau mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy ddiswyddo rhai staff. Pan fo staff yn ymddeol neu'n cael cynnig pecyn ymddeoliad cynnar, does neb yn cael eu penodi yn eu lle. Mae'r gostyngiad hefyd yn nifer y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd gwledig y Sir yn arwydd fod diboblogi ymhlith pobl ifanc yn cynyddu.

BH

Sefydliad Y Merched - Talybont

Cyfarfu Cangen Tal-y-bont o Sefydliad y Merched am y tro cyntaf yn 1916 a than i'r Neuadd Goffa agor yn 1924 cynhaliwyd eu cyfarfodydd i gyd yn yr Hen Ysgol.

Ar 17 Tachwedd eleni cynhaliwyd cinio yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth i ddathlu'r canmlwyddiant yng nghwmni'r aelodau presennol a'u gwesteion. Wrth gynnig llwncdestun ac yn ystod yr anerchiadau cofiwyd am nifer o'r cyn-aelodau a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt.

Torrwyd cacen hardd y canmlwyddiant, a baratowyd gan Liz Roberts, gan Juliet Trudgill, Llywydd presennol y gangen, a chan Gadeirydd Ffederasiwn Ceredigion, Judy Lile.



Ffair y Neuadd



Codwyd dros £1250 mewn prynhawn wrth i gymdeithasau lleol ddod at ei gilydd eleni eto i gynnal Ffair Nadolig er budd y Neuadd Goffa. Ar ddiwrnod braf o Dachwedd roedd y Neuadd yn gyfforddus lawn wrth i bawb fwynhau paned a sgwrs a'r danteithion a baratowyd ar eu cyfer. Diolchodd y Cadeirydd, Bob Williams i'r mudiadau a'r busnesau lleol a gefnogodd y Ffair, sef Cymdeithas y Sioe a'r Treialon Cŵn Defaid, Merched y Wawr, Papur Pawb, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Tal-y-bont, Clwb Ffermwyr Ifanc, Sefydliad y Merched, Y Lolfa a Ruth Jên. Diolchodd hefyd i aelodau a chefnogwyr Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa am ddarparu'r lluniaeth a chyfrannu'n hael at y rafflau. Cynhelir cyfarfod Rhagfyr y Pwyllgor Rheoli nos Fawrth 13 Rhagfyr am 8.00 o'r gloch.



Stondin brysur Papur Pawb (uchod)

Cadeirydd bodlon y Pwyllgor Rheoli, Bob Williams (De)



Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Busnesa

Prif ddiddordeb Iwan Jones yn yr ysgol oedd adeiladau a chanfod sut oedd pethau'n gweithio. Bellach mae'n cynnal ei fusnes gwasanaethau pensaernïol o'i gartref yn Gellimanwydd Tal-y-bont ers deng mlynedd ar hugain. Ei hoff bynciau yn yr ysgol oedd gwaith coed, metel a mathemateg a cham naturiol felly oedd dilyn cwrs hyfforddi HNC yng Ngholeg Penfro yn Hwlfordd. Ar derfyn y cwrs cafodd waith mewn swyddfa pensaernïol yn Aberystwyth gyda chyfrifoldeb yn bennaf am adeiladau domestig. Yna cyfeiriad gwahanol gan symud i swydd gyda'r Bwrdd Nwy fel tir fesurydd ar gynllun gosod peipen nwy o Aberystwyth i Fachynlleth. Arweiniodd hyn at brosiectau eraill o dan adain y Bwrdd Nwy a chwmnïau o'r Iseldiroedd gan gynnwys gosod pibell nwy o Aberdaugleddau i Evesham. Ar yr adeg hyn roedd Iwan yn byw oddi cartref mewn carafan ar y safle ac yn cyd-weithio gydag amrywiaeth eang o bobl. Roedd yr amserlenni yn dynn iawn a phawb yn ymdrechu o dan bwysau i osgoi'r cosbau ariannol sylweddol os fyddai'r prosiect yn rhedeg yn hwyr.

Yn 1988 penderfynodd Iwan sefydlu busnes a gweithio ar ei liwt ei hun. Mae'n hoffi bod yn fos ar ei hun a'r rhyddid i reoli oriau gwaith ond fe yw'r cyntaf i gydnabod fod 'na ochr arall i'r geiniog (weithiau yn llythrennol!) Mae'n anodd gwrthod jobs gan na all fyth fod yn siŵr am y cytundeb nesaf ac unwaith eto mae'n profi anawsterau – amserlenni tynn a'r galw cyson i gadw'r cwsmer yn fodlon.



Gan aros gyda'r cwestiwn o amser gwelodd newid mawr yn y broses o ofyn a chael caniatâd cynllunio. Cynt gellid disgwyl cael ymateb o fewn mis ond erbyn hyn fe all y cyfan ymestyn dros dri mis a mwy. Yn y gorffennol byddai un ddogfen a map syml yn ddigon ond nawr mae'r holl broses yn lawer mwy cymhleth. Enghraifft o'r gofynion a'r rheolau newydd yw'r orfodaeth ar arolwg ystlumod wrth adnewyddu neu ail-gynllunio hen adeilad. Ar yr adeg hyn o'r flwyddyn mae'r ystlumod yn clwydo a felly rhaid aros tan hwyrnosau'r gwanwyn i wrando a chyfri'r creaduriaid bychain. Agwedd ecolegol arall sy'n gynyddol bwysig yw ystyriaethau a chanlyniadau llifogydd.

Profodd Iwan newid arall o weld effaith technoleg ar y gwaith. Yn gynnar yn ei yrfa byddai'n gosod yr holl gynlluniau ar bapur ar fwrdd mawr. Tra'n llunio llwybr y beipen er enghraifft arferai weithio'n syth ar bapur a map manwl. Bellach mae'r cyfan ar y cyfrifiadur a rhaid meistrolï'r sgil o gyfarwyddo â rhaglenni cyfrifiadurol soffistigedig – ac fel pob agwedd ym maes cyfrifiadurol fe fydd sgil eleni wedi'i ddisodli gan raglen blwyddyn nesaf.

Serch hyn oll, Iwan yw'r cyntaf i gydnabod mai yr un galluoedd sylfaenol sy'n greiddiol i'r gwaith sef clust dda i wrando a dadansoddi gofynion y cwsmer, llygad dda i wireddu'r syniad ar bapur, meddwl clir er mwyn datrys problemau ac amynedd i ddellio gyda'r holl waith papur a'r biwrocratiaeth. Syml ond yw e!! O holi ymhellach am y biwrocratiaeth mae Iwan yn gwenu'n dawel a dweud dim. Taw pia hi!

Mae rhan helaeth o'i gwsmeriaid yng Ngheredigion ond mae e hefyd wedi gweithio i unigolion ym Mhowys, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin. Swyddogion gwahanol a gofynion gwahanol a rhaid plesio bob tro. A'r pleser mwyaf iddo ef? Gweld cynllun a oedd efallai yn ddim mwy na darlun amrwd ar ddarn o bapur yn cael ei wireddu a'r cleient yn symud i gartref newydd. Fel y dywed yr hen gân ac Iwan ei hun, does unman yn debyg i gartref - yn arbennig cartref ar ei newydd wedd.

yBlac

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda
Mwynhewch yr Ŵyll!

01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2016 – dros £17,000 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 16eg 2017

Amcanion Cronfa Eleri
'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

CYSTADLEUAETH!
CYFLE I ENNILL CD NEWYDD
Y WELSH WHISPERER!

Am gyfle i ennill copi o'i CD newydd llawn hiwmor a chanu gwlad
'Y Dyn o Gwmfelin Mynach'
atebwch y cwestiwn anodd yma;

Sawl aelod sydd yn y deuaud canu gwlad 'Dylan a Neil'?

Atebion at welshwhisperer@live.com
neu: Caeglas, Cwmfelin Mynach,
Hendy Gwyn ar Daf, Sir Gâr, SA34 0DJ
(Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad).

www.welshwhisperer.cymru

argraffu da

am bris da

yLolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 **www.yloffa.com**

Y Wladfa

Y croeso cynnes a gafwyd ym mhob man – dyna sy'n aros yn y cof yn dilyn ymweliad pedwar-ar-ddeg ohonom â'r Wladfa ym Mhatagonia yn ddiweddar. Ond roedd yna nifer o uchafbwyntiau wrth gwrs, megis cwrdd â llawer o Gymry a gweld y Gymraeg yn cael lle amlwg ar arwyddion. Treuliwyd orig ddifyr yng nghwmni Luned Gonzalez yng nghapel Bethel, Gaiman a hithau eisiau gwybod hanes pob un ohonom cyn adrodd ei stori ei hunan.



Carys ynghadair Dic Jones

Yna treuliwyd bore crasboeth yn gwylio Seremoni'r Orsedd yn Gaiman lle'r oedd gauchio ar ei geffyl yn cario baner Cymru i arwain y gynulleidfa drwy'r strydoedd at Feini'r Orsedd.

Pan oeddem yn cael paned o goffi a chacen fendigedig yn Siop Bara Gaiman daeth gwraig leol yno i brynu torth, ac wrth ein clywed yn siarad Cymraeg newidiodd o'r Sbaeneg i gynnal sgwrs hyfryd gyda ni yn Gymraeg.

Ymwelwyd â thair ysgol Gymraeg (Ysgol Gymraeg Gaiman, Ysgol yr Hendre, Trelew, ac Ysgol y Cwm, Trevelin) a chael croeso arbennig

ynndynt, gan sgwrsio'n Gymraeg gyda'r plant bach er bod y rhan fwyaf ohonynt o deuluoedd di-Gymraeg.

Ymwelwyd â nifer o gapeli'r ardal a godwyd gan y Cymry a chael mynediad i Bethel, Glan Alaw a Moriah a chyfle i ganu emynau ynndynt. Ym mynwent Capel Moriah, Trelew, roedd 42 o'r arloeswyr wedi eu claddu, ac eraill eto ym mynwent Gymreig Gaiman, gyda phlac bychan ar y cerrig beddau hynny yn nodi'r ffaith eu bod ymhlith y fintai gyntaf.

Roedd yn werth ymweld â'r Amgueddfa Gymreig wych yn Gaiman, a gwefr bersonol i mi oedd cael eistedd yn y gadair a enillodd Dic Jones yn Eisteddfod y Wladfa hanner can mlynedd yn ôl ac sydd wedi dychwelyd i'r Amgueddfa erbyn hyn (gan fod cysylltiad teuluol rhwng hen-Fam-gu Dic Jones a fy Nhad-cu innau).

Un noson mwynhawyd asado bendigedig ar fferm Ricardo Irianni, a deall fod ei gyn-deidiau yn hanu o Bonterwyd. Wrth gerdded



Carys Briddon o flaen murlun Rawson

Y Gair Olaf



'Rwyf wedi meddwl ers sbel pa mor ffodus 'rwyf i, i fyw mewn lle hyfryd fel Tal-y-bont. Nid oes angen unrhyw beth arna'i, ac 'rwy'n teimlo'n ddiogel, ac yn lwcus o'm teulu, fy mhiant a'm hŵyrion a bod hwythau'n ddiogel. Y mae lle gennym i ddiolch. Trist iawn yw gweld y lluniau ar y teledu ac yn y wasg bob dydd o blant bach a'u rhieni yn edrych mor dorcalonnus ac ofnus, a'u llygaid yn syllu i'r gofod; mae'n amhosib peidio â theimlo drostynt. Nid yn unig maent yn poeni o le mae'r pryd bwyd nesaf yn dod, ond pryd mae'r bom nesaf yn dod i'w taro. Yr ydym ni mor barod i gwyno am y pethau lleiaf a dibwys, ond mae gweld y delweddau yma'n ein sobri, ac yn rhoi pethau mewn persbectif.

Yr ydym ni wedi ein breintio i fyw mewn gwlad heddychlon, diolch i arweinwyr gwledydd Ewrop ar ôl yr ail Ryfel Byd, a ddaeth at ei gilydd i gytuno i beidio ymladd â'i gilydd. Gobeithio bydd hyn yn parhau ar ôl Brexit, sydd yn barod yn creu ansicrwydd mewn sawl maes, a neb yn gwybod sut mae pethau yn mynd i ddatblygu.

Gan ein bod yn nesáu at y Nadolig, gweddiwn y bydd pethau'n gwella arnynt yn y dyfodol agos, ac i ninnau wneud ein rhan i esmwythau peth o'u dioddefaint, ac i arweinwyr y gwledydd i gyd ddangos cariad Crist.

Ann Jenkins

o amgylch ei fferm gwelwyd y ffosydd dŵr a gloddiwyd gan ei gyn-deidiau i droi'r tir diffaith yn dir ffrwythlon gan ddŵr yr afon Camwy, ac roedd rhwydwaith o ffosydd tebyg i'w gweld ar hyd a lled y dyffryn hefyd.

Roedd mynychu Eisteddfod Chubut yn Nhrelew yn brofiad gwahanol gan fod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn Sbaeneg, ar wahân i seremoni Cadeirio'r Bardd wrth gwrs, ac roedd yn hyfryd gweld gŵr o Aberteifi yn codi ar ei draed i'w gadeirio a ninnau wedi ei gyfarfod sawl gwaith yn ystod yr wythnos. Mae'n dda gweld fod diwylliant a thraddodiadau'r Cymry yn bodoli o hyd yn y Wladfa.

Ymwelwyd â Phenrhyn yr Ogofau ym Mhorth Madryn lle glaniodd yr ymsefydlwyr cyntaf, ac oddi yno teithiwyd dros y Paith diddiwedd i gymunedau gorllewinol yr Andes yn Esquel a Threvelin, gan ddilyn yr afon Camwy y rhan fwyaf o'r ffordd – yn union fel y gwnaeth y Cymry gynt. Arhoswyd ar y ffordd nifer o weithiau mewn llefydd o ddiddordeb hanesyddol Cymreig.

Teithiwyd i Gwm Hyfryd a mwynhau dwy wledd arbennig yn Nhrevelin, sef asado arall, a blasu te Cymreig Nain Maggie, a dyna beth oedd diwedd glo hyfryd i daith fythgofiadwy cyn hedfan yn ôl i Buenos Aires, ac adref.

Carys Briddon

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

ANRHEG NADOLIG GWYCHI!!

Oes gennych chi hen fideos VHS yr hoffech ei drosglwyddo i DVD?

Cysylltwch â STWIDIO BING:
01650 511600
post@stwidiobing.cymru



Chwaraeon

Eilyddion ar y Brig




Wedi buddugoliaeth o bum gôl i ddwy yn erbyn Llan-non ar Sadwrn olaf Tachwedd, mae Eilyddion Tal-y-bont yn aros ar frig ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch. Y sgorwyr oedd Ben Hall, Sam Penfold, Kieron Owen, Rob Makaruk a Chris Wylde (cic o'r smotyn). Yn y llun gwelir gôl-geidwad Llan-non yn curo blaenwyr Tal-y-bont, Steffan Foulkes ac Anthony Vasquez i'r bêl.

Tipyn o Gamp

Rydym wedi hen arfer â gweld Elaine Rowlands, 6 Maes-y-felin, Tal-y-bont, yn gwibio heibio ar droed neu ar gefn beic. Ar 29 Hydref fe fu Elaine yn cystadlu yn Marathon Eryri, sy'n cynnwys rhedeg cylch o dros 26 milltir ar hyd y dyffrynnoedd hardd o gwmpas yr Wyddfa. Roedd dros dwy fil o redwyr, yn fechgyn a merched, yn cystadlu a daeth Elaine yn gyntaf o blith rhedwragedd tîm Aber A. C. Tipyn o gamp.

Anrheg Berffaith i Bysgotwr



Mae'n anodd dychmygu llyfr harddach i'w roi yn hosan Nadolig unrhyw bysgotwr na chyfrol George Barron *At The End of the Line* a lansiwyd ym mis Tachwedd yn Galway. Yn llawn golygydd trawiadol a hanesion difyr, prif nodwedd y gyfrol yw manylion a lluniau plu pysgota addas ar gyfer llynnoedd Yr Alban, Iwerddon a Chymru. Cynhwysir dyfyniad gan Moc Morgan yn y gyfrol yn cyfeirio at y pleser gaiff pysgotwyr yng nghwmni llyfrau pysgota. Dyma'r union math o lyfr yr oedd ganddo mewn golwg, mae'n siŵr. George yw awdur a chyhoeddwr y gyfrol ac mae copïau ar werth mewn siopau lleol neu gan yr awdur george_barron@btinternet.com Pris: £25

Atgofion am Ewro 2016



Phil a Gwyn yn lansiad *Merci Cymru* yng Nghanolfan Chapter, Caerdydd

Mae gwaith dau gyfrannwr lleol yn ymddangos yn *Merci Cymru*, cyfrol a olygwyd gan Tim Hartley sy'n dathlu haf bythgofiadwy 2016 yn Ffrainc. Cynhwysir cerdd gan Phil Davies (a ymddangosodd yn wreiddiol ym Mhapur Pawb) ac ysgrif gan Gwyn Jenkins yn cymharu campau'r tîm presennol gyda campau cewri'r gorffennol. Mae'r cyfranwyr eraill yn cynnwys y Prifeirdd Rhys Iorwerth ac Aled Gwyn, Dylan Ebenezer, Geraint Løvgreen a Iola Wyn, pob un yn rhoi ar bapur y profiad anhygoel o ddilyn tîm pêl-droed Cymru, wrth iddynt greu hanes ac ennill calonnau cyfandir cyfan. Cyhoeddir gan Y Lolfa. Pris £7.99

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553